Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
Aberystwyth

Cyfraniad fydd yn parhau am genedlaethau

A contribution that will last for generations

www.llgc.org.uk

VERIS BONARUM ARTIUM

Sut mae cefnogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae nifer o ffyrdd gwahanol o adael rhodd i'r Llyfrgell yn eich Ewyllys, ac mae'n statws fel elusen gofrestredig yn sicrhau bod unrhyw rodd yn rhydd o daliad treth etifeddu.

Y rhoddion mwyaf arferol yw:

- **Cymynrodd ariannol** – rhodd o swm penodol o arian.
- **Cymynrodd weddilliol** – rhodd o ran neu'r cyfan o weddill eich ystâd ar ôl talu taliadau a chymynroddion eraill.
- **Cymynrodd benodol** – mae'r Llyfrgell yn derbyn rhodd o eitemau i'n casgliadau.

Os ydych yn ystyried gadael eitemau penodol i'r Llyfrgell byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod eich rhodd ymlaen llaw, cyn derbyn eich cymynrodd, er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda'n polisi casgliadau.

How to support the National Library of Wales

There are many different ways to leave a gift in your Will to the Library, and our charitable status ensures that any gift you make to us will be exempt from inheritance tax.

The most common forms of gift are:

- **Pecuniary bequest** – a donation of a fixed sum of money.
- **Residuary bequest** – a gift of all or part of the remainder of your estate after all other payments and bequests have been made.
- **Specific bequest** – the Library accept bequests of material for our collections.

If you are considering leaving specific items to the Library we would welcome the opportunity to discuss your donation before we receive your legacy to ensure it is consistent with our collection policy.

Gadael rhodd i ni yn eich Ewyllys

Argymhellir eich bod yn ymgynghori gyda chyfreithiwr i sicrhau bod eich Ewyllys yn gyfreithiol, yn adlewyrchu'n llawn eich dyheadau a'i bod yn gyfredol. Os penderfynwch adael rhodd i'r Llyfrgell rydym yn argymell defnyddio'r canlynol fel geiriad addas yn eich Ewyllys er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn eich rhodd:

Rwy'n cymynroddi i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU, rhif elusen gofrestredig 525775, [y swm o / % o fy ystad weddilliol / eitem benodol] i'w ddefnyddio yn ól doethineb y Llyfrgell Genedlaethol. Rwyf yn datgan ymhellach bod derbynneb oddi wrth y Trysorydd neu swyddog priodol arall yn rhyddhad llawn a digonol o'r rhodd i fy ysgutorion.

Leaving us a gift in your Will

We recommend that you consult a solicitor to ensure your Will is legally valid, reflects your intentions and is up to date. Should you choose to leave a gift to the Library we suggest that the following wording is used in your Will to ensure that we receive your donation:

I bequeath to the National Library of Wales in Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU, registered charity number 525775, [the sum of / % of my residuary estate / item specified] to be used by the National Library at its discretion. I further direct that the receipt of the Treasurer or other authorised officer shall be a full and sufficient discharge to my executors.

Eich gorffennol, eich dyfodol

Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru dros ganrif yn ôl gan roddion a chymynroddion pobl Cymru a gredai ym mhwysigrwydd diogelu ein treftadaeth. Fe fu'r bobl hyn yn allweddol i greu un o brif sefydliadau diwylliannol y byd gan ddarparu cartref diogel i nifer fawr o drysorau Cymru.

Ers y dechrau rydym wedi casglu deunydd sydd yn ymwneud â Chymru a'r cenhedloedd Celtaidd eraill, ei gadw a'i gyflwyno i bawb, boed hynny trwy ymweld â'r Llyfrgell neu trwy gyfrwng ein gwefan. Cafodd y Llyfrgell ei chydnabod erioed fel canolfan addysg ysgolheigaidd ac rydym yn parhau i fod yn adnodd pwysig i ymchwilwyr ar hyd a lled y byd. Erbyn hyn rydym hefyd yn cynnig addysg gydol oes a gwasanaethau estyn i ysgolion yng Nghymru, er mwyn cyflwyno ac ysbrydoli gwerthfawrogiad o'n casgliadau.

Fel elusen mae'r Llyfrgell yn dibynnu ar ystod eang o ffynonellau codi arian i gefnogi a datblygu ein gwasanaethau ac i wireddu ein hymrwymiad i gasglu, cadw ac addysgu. Gall gadael rhodd i ni yn eich Ewyllys, boed fawr neu fach, wneud gwahaniaeth sylweddol a'n cynorthwyo i gadw hanes Cymru yn fyw i genedlaethau'r dyfodol.

Your past, your future

The National Library of Wales was established over a century ago through donations and legacies from the people of Wales who believed in the importance of preserving our heritage. These individuals helped to create one of the leading cultural institutions in the world and provide a safe home for many of Wales's treasures.

Since our creation we have worked to acquire material relating to Wales and the other Celtic nations, to conserve it and make it accessible to everyone, be that by visiting the Library itself or by using our website. The Library has always been recognised as a centre for scholarly learning and today we continue to serve as a resource for researchers all over the world, as well as providing adult education and school outreach services in Wales as a means of inspiring an appreciation of our collections.

As a charity, the Library relies on a variety of funding sources to support and develop our services, and to fulfil our commitment to acquire, conserve and educate. Leaving us a gift in your Will, however large or small, can make a real difference and help us to keep the history of Wales alive for future generations.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
Aberystwyth

Diolch

Mae pob rhodd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn gwneud gwahaniaeth. Byddem yn gwerthfawrogi pe byddech yn hapus i adael i ni wybod eich dymuniad gan y byddai o gymorth wrth gynllunio at y dyfodol ac i ddiolch i chi am eich rhodd.

Enw	
Cyfeiriad	
Rhif Ffôn	
E-bost	
Dyddiad	

Bwriadaf adael / Rwyf wedi gadael rhodd i'r Llyfrgell yn fy Ewyllys:

☐ Cymynrodd weddilliol

☐ Cymynrodd ariannol

Arall (noder os gwelwch yn dda)

☐ Nid wyf yn dymuno derbyn unrhyw wybodaeth ychwanegol am gymynroddion

Dychwelwch y ffurflen hon i: **Rheolwr Cymynroddion, Swyddfa Codi Arian, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU.**

Gellir cysylltu gyda'r Rheolwr Cymynroddion trwy e-bost ar cefnogwch-ni@llgc.org.uk neu drwy ffonio 01970 632511.

Gallwch fod yn sicr y bydd eich gwybodaeth yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol ac nad yw'n cynnwys ymrwymiad gorfodol.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
Aberystwyth

Thank you

Every gift to the National Library of Wales makes a difference. If you are willing to let us know your wishes we would be grateful as this enables us to plan for the future and also to thank you for your gift.

Name	
Address	
Tel	
E-mail	
Date	

I intend to leave / have left a gift to the Library in my Will:

☐ Residual bequest

☐ Pecuniary bequest

Other (please specify) _____

☐ I do not wish to be contacted further about legacies

Please return this form to: **Legacy Manager, Fundraising Office, National Library of Wales, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU.**

You can also e-mail the Legacy Manager on support-us@llgc.org.uk or phone 01970 632511.

All your information is considered confidential and does not constitute a binding commitment.



Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Aberystwyth
Ceredigion
Cymru SY23 3BU

Ffôn: +44 (0)1970 632 800
Ffacs: +44 (0)1970 615 709

The National Library of Wales

Aberystwyth
Ceredigion
Wales SY23 3BU

Phone: +44 (0)1970 632 800
Fax: +44 (0)1970 615 709

FRSB rhowch gyda hyder

FRSB give with confidence

www.llgc.org.uk

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government